# DEDDF ADDYSG UWCH (CYMRU) 2015

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR ADRANNAU O'R DDEDDF

### Rhan 2 – Cynlluniau Ffioedd a Mynediad

### *Adran 13 – Cyfarwyddydau mewn cysylltiad a methiant i gydymffurfio a gofynion cyffredinol cynllun a gymeradwywyd*

37. Caiff CCAUC roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu sefydliad os yw wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu wedi methu â cydymffurfio â gofyniad cyffredinol yng nghynllun ffioedd a mynediad y sefydliad. Gofyniad cyffredinol mewn cynllun yw darpariaeth sy'n cael ei chynnwys ynddo sy'n ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad wneud (neu beidio â gwneud) pethau penodedig (gweler adran 6(7)). Byddai'r cyfarwyddyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodedig at y diben o ymdrin â'r methiant i gydymffurfio. Gall CCAUC roi cyfarwyddyd o'r fath ar adeg pan nad yw'r cynllun o dan sylw mewn grym mwyach, cyn belled â bod y cynllun mewn grym ar adeg y methiant.

38. Gall CCAUC hefyd roi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu sefydliad os yw wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu yn debygol o fethu â chydymffurfio â gofyniad cyffredinol yng nghynllun y sefydliad sydd mewn grym. Byddai cyfarwyddyd o'r fath yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu gymryd (neu beidio â chymryd) camau penodedig ar y diben o atal y methiant i gydymffurfio.

39. Mae adran 13(5) yn atal CCAUC rhag rhoi cyfarwyddyd i gorff llywodraethu sefydliad o dan yr adran hon pan fo CCAUC wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r gofyniad cyffredinol o dan sylw. Er enghraifft, efallai y bydd corff llywodraethu sefydliad yn ymrwymo yn ei gynllun a gymeradwywyd i ddarparu cyrsiau ysgol haf ar gyfer nifer penodedig o ddisgyblion ysgol na fyddent yn ystyried mynd i addysg uwch fel arall o bosibl. Mae nifer y disgyblion sy'n mynd ar y cyrsiau ysgol haf wedi hynny mewn gwirionedd yn is na'r nifer a nodwyd yn y cynllun a gymeradwywyd, er i'r sefydliad roi cyhoeddusrwydd eang i'r cyrsiau a chydweithio ag ysgolion lleol i annog disgyblion i fanteisio ar y ddarpariaeth. Efallai, yn yr achos hwnnw, y byddai CAAUC wedi ei fodloni bod y corff llywodraethu wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio â'r gofyniad cyffredinol.

40. Mae'r gweithdrefnau hysbysiad rhybuddio ac adolygu yn adrannau 41 i 44 yn gymwys i gyfarwyddydau o dan adran 13.